

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 27ain o Ionawr 2021 am 7.30 o'r gloch drwy gyfrwng zoom.

Presennol; Cyng. Berwyn Hughes, Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Sion Alun Roberts, Arfon Hughes, Berwyn Harding, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cynghorydd Berwyn Hughes. Roedd ymddiheuriadau gan y Cyng Robin Hughes, a mynegwyd ein llongyfarchiadau gwresog iddo ef a'r teulu yn Dugoed Mawr ar enedigaeth Begw Non.
2. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gyfarfu ar y 9fed o Ragfyr yn y Neuadd yn Dinas Mawddwy fel rhai cywir ar gynnig Cyng. Hedd Pugh a'i eilio gan Cyng. Catrin Jones.
3. **Materion yn codi .**
 - a. **Materion Priffyrdd** – adroddwyd fod yr ymatebion wedi eu danfon ymlaenllaw i'r Cynghorwyr. Yng nghyswllt y sianeli a ffosydd oedd wedi eu hagor ar Fwlch y Groes, gwelwyd fod angen parhau i bwysu i gael eu llenwi efo cerrig, oherwydd gallent fod yn beryglus pe bai damwain. Cadarnhawyd fod Cyng Hedd Pugh wedi cyfarfod swyddog o'r Cyngor i benderfynnu ar safle dau fin halen o'r newydd, sef ar y Cytir (uwchlaw Ty gwyn) ac hefyd ar rhiw Abercowarch. Nid oeddynt wedi eu gosod hyd yma.
 - b. **Mynwentydd yr ardal** – yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, ail-adroddwyd enwau y cerrig oedd yn gwyro ym mynwent Dinas, er nad oedd hyn yn golygu eu bod yn rhydd neu yn beryglus. Gofynnwyd i gael mwy o amser i ystyried hyn, a byddai'r Clerc yn gyrru'r enwau i Gynghorwyr, a byddai rhaid trafod y tro nesaf. Tra'n trafod hyn, adroddodd y Clerc ei fod wedi siarad efo Tegid Humphreys Cwmllinau eto ynglyn a'r angen i dorri y sientin tu cefn i fynwent Llanymawddwy, ac y byddai yn mynd ati mor fuan a phosib.
 - c. **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – adroddodd y Cyng. Berwyn Hughes ei fod wedi cael ymateb gan y Gyfreithwraig Annest Smith, ac roedd angen galw yn y llyfrgell yn Dolgellau i gael mwy o wybodaeth.
 - d. **Eglwys Llanymawddwy** – nododd y Clerc nad oedd wedi clywed dim ymhellach gan yr Eglwys na'r Pensaer. Cadarnhawyd fod yn bwysig i'r Eglwys siarad efo trigolion yr ardal cyn gwneud dim ymhellach, ac adroddwyd gan y Cyng Sion Alun Roberts nad oedd yn ymddangos fod pobl yn awyddus trosi'r Eglwys yn dy, a bod angen ystyried opsiynau eraill. Gwelwyd na allai'r Cyngor wneud mwy ar hyn o bryd.
 - e. **Enwau lleoedd** – roedd y Clerc wedi danfon yr enwau a nodwyd i Gwyneth Lewis yn Cyngor Gwynedd. Nodwyd y dylid ychwanegu Serendipidy yn Minllyn a Kettle Cottage (sef 2 Wyle cop) yn y Dinas.
 - f. **Praesept y Cyngor** – roedd e-bost Dewi Morgan o Adran Gyllid Cyngor Gwynedd wedi ei danfon i bawb o'r Cynghorwyr ymlaenllaw. Roedd ymgynghoriad ganddynt i gynyddu y premiwm ar ail-gartrefi ac eiddo gwag hirdymor i 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ar y gweill, ac roedd oblygiadau posib i hyn petai lefel y premiwm yn newid. Roeddem eisoes ym Mawddwy wedi cyflwyno praesept o £9500 ar gyfer 2021/22 a fyddai yn golygu treth Cyngor sylfaenol o £27.41 ar gyfer eiddo band D. (ar sail y sylfaen drethiannol) Petai'r premiwm yn cael ei godi, byddai yn golygu fod treth band D

yn lleihau i £25.74. Felly petai y Cyngor Cymuned yn cadw y dreth band D ar £27.41, byddai praesept Mawddwy yn cynyddu i £10,120. Cynigiodd y Cyngorydd Arfon Hughes y dylid cadw at y praesept o £9500, a chael yr arbediad fel mantais i drethdalwyr y gymuned. Ni chafwyd eilydd i hyn. Yn dilyn trafodaeth, cynigiodd y Cyng Hedd Pugh a'i eilio gan Catrin Jones, a gyda chefnogaeth gweddill y Cyngorwyr y dylid cadw at y treth band D o £27.41, a fyddai yn golygu cynnydd o £620 yn y praesept l'r Cyngor os oedd penderfyniad ar y mater uchod. Byddai hyn ar gael l'w wario ar wasanaethau yn lleol.

- g. **Ecodyfi** – dywedodd y Cyng Arfon Hughes na fedrai gynrychioli y Cyngor ar Ecodyfi gan ei fod yn gyflogedig ganddynt, ac roedd yn awyddus i ethol olynydd iddo. Etholwyd y Cadeirydd Berwyn Hughes i'r gwaith, a chytunodd i hyn.
- h. **Maes parcio y Plas yn Dinas sy'n perthyn i Adra** – adroddodd y Clerc ei fod wedi cael e-bost yn cadarnhau eu bod yn cynnal trafodaethau gyda contractor i uwchraddio wyneb y maes parcio l opsiwn mwy addas – a byddent yn ymgynghori ymhellach ar yr hyn a gytunwyd.
- i. **Ysgol Bro Hyddgen** – cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu a danfon ymateb i'r ymgynghoriad, sef fod Cyngor Cymuned Mawddwy yn gefnogol o'r bwriad i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg, i'w gyflwyno yn raddol fel a nodir. Hefyd, fod yna deimlad cryf y dylai pob plentyn gael addysg ddwyieithog, gan sicrhau dyfodol yr iaith a diwylliant Cymraeg i'r dyfodol, a bod hyn yn bwysig iawn i'r ardal hon.

4.Materion Cynllunio.

Roedd pedwar o geisiadau wedi eu danfon allan l'r Cyngorwyr ers y cyfarfod diwethaf, sef;

NP5/74/171B – Dymchwel ty presennol ac adeiladu ty newydd (ail-gyflwyniad) Penrhyn, Cwm Cywarch

Roedd 5 cyngorydd wedi ymateb yn gefnogol, ac un yn gwrthwynebu.

Roedd y Cyngor yn gefnogol l'r cais. Nodwyd y bydd yr adeilad newydd sy'n cael ei amlinellu yn y cais yn defnyddio deunyddiau traddodiadol fydd yn gweddu ir Cwm. Dangoswyd yn glir nad yw yn gynaliadwy i wario ar ei adnewyddu felly yr unig opsiwn oedd ei dynnu i lawr, a cychwyn or newydd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd anedd yno am ganrifoedd i ddod ac roedd Cyngor o'r farn fod hyn yn llawer gwell na gweld adfail yno.

NP5/74/113G – Cais rhannol ol-weithredol l ymestyn cwrtil, gwaith cloddio, wal gynnal a chodi garej, Delfryn Dinas Mawddwy.

Roedd 4 o gyngorwyr wedi ymateb ac yn gefnogol. Nodwyd fod y cyfan wedi ei orchuddio yn dda, ac felly na fydd i'w weld o'r ardal gyfagos.

NP5/74/484 - dymchwel ac ail-adeiladu garej, Ty'n y Fron Aberangell

Roedd 5 o gyngorwyr wedi ymateb, ac yn gefnogol. Nid oedd dim yn newid l beth sydd yna rwan, felly dim ond gwelliant. Hefyd, nid yw'r datblygiad yn amharu ar neb.

NP5/ 74/373B – Adeiladu estyniad ochr unllawr, estyniad deulawr ac unllawr ar yr edrychiad cefn ynghyd a waliau cynnal yn Pentre Bach, Dinas Mawddwy.

Roedd 5 o gynghorwyr wedi ymateb, ac yn gefnogol – er fod un sylwad yn codi y cwestiwn y gallai yr eiddo ei werthu ymlaen am elw, a’l fod allan o gyrraedd pobl leol. Nodwyd fodd bynnag na allem roi sylwadau ar hynny.

Penderfynwyd felly fod y Cyngor yn gefnogol i’r cais gan y na fyddai yn effiethio ar unrhyw anedd arall yn yr ardal, nac ychwaith yn anharddu y rhan yma o Gwm Cerist.

5. Materion Cyllid.

Adroddodd y Clerc fod yr holl geisiadau am arian wedi ei dosbarthu l’r Cynghorwyr ymlaenllaw – a oedd yn 6 o geisiadau sef; Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Cylch Meithrin Dolybont, Urdd Gobaith Cymru, Ambiwllans Awyr, Radio Ysbyty Gwynedd, a Dawns I Bawb.

Cyn mynd ymlaen, derbyniwyd adroddiad gan y Clerc. Adolygwyd a diweddarwyd pawb gyda sefyllfa ariannol y Cyngor ar hyn o bryd, a thrafodwyd yn fanwl sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer gweddill blwyddyn 2020-21 ac chyfeiriwyd hefyd yn fyr at y rhagolygon a chyllideb ar gyfer 2021-22.

Roedd y balansau fel a ganlyn ar 5.01.21 ;

Cyfri cyfredol - £8,299.96

Cyfri Claddu - £3,306.43

Cyfri Cadw - £768.64

Rhestrwyd y taliadau a’r gwariant/gofynion tebygol ar gyfer gweddill y flwyddyn, a oedd yn cynnwys cyflog/costau y Clerc a HMRC, cost archwilio, aelodaeth Un Llais Cymru, EW Owen a’l Chwmni (cyfrifwyr oedd yn delio efo PAYE) , cost 2 fin halen o’r newydd a chost llenwi biniau eraill.

Atgoffodd y Clerc y Cynghorwyr fod y Cyngor yn cyfrannu yn flynyddol l’r Neuadd yn Dinas a’r Neuadd yn Aberangell, ac hefyd l Eisteddfod y Groglith (er nad oedd cais l mewn hyd yma)

Cytunwyd fel a ganlyn;

CFFI Meirionnydd – ar gynnig Berwyn Harding a’l eilio gan Idris Jones, cytunwyd l gyfrannu £400 l’r CFFI yn Sirol a £400 l CFFI yn lleol yn Dinas Mawddwy (fel a wnaethpwyd yn 2020) Cafwyd datganiad diddordeb gan Hedd Pugh.

Cylch Meithrin Dolybont – ar gynnig Catrin Jones a’l eilio gan Hedd Pugh, cytunwyd l gyfrannu £800 (fel a wnaethpwyd yn 2020) Cafwyd datganiad diddordeb gan y Cadeirydd Berwyn Hughes a Sion Alun Roberts.

Ambiwllans Awyr – ar gynnig John P Jones a’l eilio gan Sion Alun Roberts, cytunwyd l gyfrannu £500.

Eisteddfod y Groglith – ar gynnig Catrin Jones a’l eilio gan Idris Jones, cytunwyd l gyfrannu £300 (yn ddibynnol ar dderbyn cais ysgrifenedig) Cafwyd datganiad diddordeb gan Hedd Pugh ac Arfon Hughes.

Penderfynwyd, ar gynnig Hedd Pugh a'l eilio gan Catrin Jones, I beidio cyfrannu l'r Urdd, (ond yn hytrach l'r Adran yn lleol yn y Dinas – gweler isod) Radio Gwynedd a Dawns I Bawb.

Yn dilyn trafodaeth bellach, penderfynwyd, ar gynnig Hedd Pugh a'l eilio gan Catrin Jones I adael y cyfraniadau canlynol hyd nes derbyn cais, a'u clustnodi ar gyfer y flwyddyn 2021-22, sef

Eisteddfod y Groglith - £300
Adran yr Urdd Dinas - £400
CFFI Dinas - £400

Penderfynwyd ymhellach, ar gynnig John P Jones a'l eilio gan Arfon Hughes, i adael y penderfyniad ynglyn a'r cyfraniad blynyddol i Neuadd Dinas Mawddwy ac Aberangell tan y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Fawrth.

Cadarnhawyd nad oedd anfoneb Tegid Humphreys am y gwaith torri gwair ym mynwent Llanymawddwy a Mallwyd wedi dod I law (sef £810, sef yr un gost a'r flwyddyn diwethaf), a rhoddwyd caniatad l'r Clerc i'w dalu pan fydd i law. Hefyd, nid oedd gwaith torri gwrych ym mynwent Llanymawddwy wedi ei wneud, a rhoddwyd caniatad l'r Clerc i dalu yr anfoneb pan fydd I law, a'r gwaith wedi ei gwblhau yn foddhaol, sef cost o £100.(sef eto yr un gost a'r flwyddyn diwethaf)

6. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd at wybodaeth am gyfarfod **Un Llais Cymru Meirionnydd** Nos Fercher y 3ydd o Chwefror drwy gyfrwng zoom. Nodwyd nad oedd ein cynrychiolwyr, sef Hedd Pugh ac Idris Jones wedi cael y gohebiaeth gan Mel ab Owain, a byddai'r Clerc yn ysgrifennu yn ddiymdroi. Roedd y Clerc hefyd wedi cadarnhau y byddai yn ymuno yn y cyfarfod.
- b) Roedd e-bost i law gan Dylan ag Elen, Tyncelyn Dinas Mawddwy yn nodi fod y cais cynllunio ger y fynwent (a wrthodwyd gan y Parc Cenedlaethol) yn mynd i apel, ac roedd cais am gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned. Cytunwyd i gynnwys yr un pwyntiau ag o'r blaen, a byddai'r Clerc yn ymdrin a'r mater. Yn y cyswllt yma, nodwyd fod Cyngor Mawddwy (yn ystod y drafodaeth yn y Parc wrth ystryied y cais) wedi cael ei llongyfarch ar ymateb cynhwysfawr a thrwyadl i'r cais cynllunio yma.
- c) Nodwyd ohebiaethau a ddanfonwyd ymlaen gan y Clerc ynglyn ag hyfforddiant, ac roedd yn bwysig i bawb gysylltu gyda'r Clerc os oeddynt am fynychu.

7. Unrhyw Fater arall.

- a) Adroddwyd am goeden wedi cwmpo ger Pont Dolybont, ac hefyd erydiad tir yno. Addawodd Cyng John P Jones i'w thynnu i ochr y Comin o'r afon, a chadarnhawyd nad oedd yna unrhyw wrthwynebiad i hyn.
- b) Adroddwyd am ddwr yn dod i'r ffordd o gyfeiriad ty uwchlaw y Neuadd yn Aberangell, ac yn dod i faes parcio y Neuadd, ac ar un achlysur wedi dod i mewn i'r Neuadd. Roedd angen dwyn sylw yr Adran Briffyrdd.
- c) Nodwyd eto fannau gwan ar y ffordd o Brynuchaf hyd at y tro am Pennant, Llanymawddwy.
- d) Roedd y dosbarthwr hylif glanweithdra wedi torri yn y toiledau yn Dinas, a'r golau ddim yn gweithio yn toiledau y dynion.

- e) Roedd angen glanhau yr arhosfan bws yn Mallwyd, ac addawodd Cyng Catrin Jones wneud hyn pan fyddai amser yn caniatáu.
- f) Nodwyd fod sbwriel yn parhau yn broblem ar ochrau ffyrdd o fewn yr ardal, a holwyd hefyd y diweddaraf gyda cael bin yn Mallwyd.
- g) Roedd angen tynnu sylw i goeden yn tyfu ar hen bont Minllyn.
- h) Roedd angen sylw i'r tyfiant ar y llwybr o'r gofgolofn i Minllyn, ac hefyd roedd angen sylw i beryglon coed oedd yn tyfu ger ty gwag yn Minllyn.
- i) Roedd cylfert wedi blocio ar yr A470 rhwng Brynteg a Minllyn.
- j) Roedd angen cadarnhad gan Gyngor Gwynedd ynglyn a chyfrifoldeb am y maes parcio yn Lawnt y Plas ger y lle chwarae.
- k) Roedd dwr yn dod dros y ffordd ar Rhiw Landrin, sef dwr yn dod o beipen o dan y wal derfyn maes parcio y Llew Coch. Gallai fod yn beryglys iawn ar adegau o rew ac eira.
- l) Codwyd cwestiwn gan y Cyng Arfon Hughes ynglyn a'r angen i roi posteri yn hysbysu am gyfarfodydd y Cyngor yn yr hysbysfyddau o fewn yr ardal. Dywedodd y gallai fod yna unigolion nad oedd yn gwybod am gyfarfodydd y Cyngor, sef pobl sydd yn methu mynd ar y wefan, neu ddim yn darllen adroddiadau yn y Blewyn Glas. Adroddodd y Clerc fod poster yn cael ei baratoi a'i ddanfôn i bob Cynghorydd gyda'r rhaglen a chofnodion 10 diwrnod union cyn bob cyfarfod o'r Cyngor, ar gyfer eu defnydd o fewn y gymuned, ac roedd cyfrifoldeb ar bawb i wneud hyn a chydweithredu gorau posib. Roedd hyn yn ddigonol o dan y rheolau ar hyn o bryd, a dyna oedd y dealltwriaeth. Gofynnwyd i'r Cyng Arfon Hughes a oedd ef wedi rhoi poster o flaen y Neuadd, ac atebodd nad oedd wedi gwneud hyn. Hefyd cadarnhawyd fod adroddiad yn cael ei roi yn y papur bro Blewyn Glas yn dilyn bob cyfarfod, gyda rhybudd o'r cyfarfod nesaf. Cynigiodd y Cyng Arfon Hughes gael trefn fel bod y Clerc ei hun - gan ei fod yn cael ei dalu gan y Cyngor - yn mynd a phoster oddiamgylch hysbysfyddau Mallwyd, Aberangell, Dinas a Llanymawddwy cyn bob cyfarfod. Ni chafwyd eilydd i'r cynnig yma.
- Trafodwyd hyn yn faith, a dywedodd y Cynghorydd Berwyn Harding y byddai yn gofalu am Aberangell. Ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio gan Catrin Jones, a gyda chefnogaeth gweddill y Cynghorwyr, penderfynwyd gadael y trefniadau fel ag y maent, ac y dylai hyn fod yn ddigonol, ac mai mater i'r Cynghorwyr eu hunain oedd hyn yn y pen draw. Gwelwyd hefyd y dylai pawb o fewn y gymuned fod yn ymwybodol o bwy yw y Cynghorwyr os oedd yna unrhyw beth angen sylw. (Gofynnodd Arfon i'r mater yma gael ei gofnodi yn llawn).
- m) Canmolwyd Gyngor Gwynedd am eu gwaith yn clirio y ffordd yn Cywarch. Roedd angen edrych eto ar ffordd Deunant, gan fod tyllau mewn rhai manau ar ochr y ffordd, a dwr yn rhedeg i'r caeau.
- n) Roedd dwr yn dod dros y ffordd ar Bwlch yr Oerddrws, sef ger y troadau ar ben y Bwlch. Gallai fod yn beryglys, yn arbennig ar gyfnodau tywydd gwael.
- o) Adroddwyd na fyddai y Ganolfan Wlan yn Dinas yn cael ei is-raddio eleni, a oedd yn newyddion da.
- p) Cyfeiriwyd yn fyr at y gwaith sydd yn mynd ymlaen ar bont Dolybont a chynllun llwybrau Mawddwy.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 10fed o Fawrth 2021 drwy gyfrwng zoom. (mwy o fanylion yn nes i'r amser gan y Clerc)

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.35yh.